Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Eich canllaw i

Brofiant

Pan fydd person yn marw, mae'n rhaid i rywun ddelio â'i faterion. Gelwir hyn yn 'weinyddu'r ystad'.

Os yw'r person a fu farw yn gadael ewyllys

Os yw'r person a fu farw yn gadael ewyllys, fel arfer bydd yn enwi un neu ragor o bobl i weithredu fel ysgutorion yr ewyllys - hynny yw, i weinyddu ei ystad.

Os ydych wedi'ch enwi fel ysgutor ewyllys efallai y bydd angen i chi wneud cais am grant profiant.

Mae grant profiant yn ddogfen swyddogol y gall fod ei hangen ar ysgutorion i weinyddu'r ystad. Fe'i rhoddir gan ran o'r llys a elwir yn gofrestrfa brofiant.

Os nad oes ewyllys

Os nad oes ewyllys (a elwir yn farw heb ewyllys) mae'r broses yn fwy cymhleth. Bydd angen gwneud cais am grant llythyrau gweinyddu (sef dogfen swyddogol, a roddir gan y llys, sy'n caniatáu i weinyddwyr weinyddu'r ystad).

Gelwir yr unigolyn sydd wedi derbyn llythyrau gweinyddu yn weinyddwr. Y gweinyddwr yw'r unigolyn sydd â'r hawl gyfreithiol i ddelio â materion y sawl sydd wedi marw, ac fe'i pennir gan drefn benodol o flaenoriaethau.

Fel arfer bydd y gweinyddwr yn berthynas agos i'r person a fu farw, os oes un. Gall fod hawl gyfartal gan fwy nag un person i wneud hyn. Gall eich cyfreithiwr roi gwybodaeth i chi am y drefn benodol o flaenoriaethau.

Rhai termau cyfreithiol eraill y gallwch ddod ar eu traws

Cynrychiolwyr personol

Ystyr hyn yw ysgutorion neu weinyddwyr. Os oes mwy nag un cynrychiolydd personol mae'n rhaid iddynt weithio gyda'i gilydd i benderfynu ar faterion rhyngddynt. Gall anghytuno rhwng cynrychiolwyr personol achosi oedi sy'n gostus.

Grantiau cynrychiolaeth

Mae hyn yn cynnwys grantiau profiant (os oes ewyllys) a grantiau llythyrau gweinyddu (os nad oes unrhyw ewyllys). Mae pobl yn aml yn troi at brofiant hyd yn oed os nad oes unrhyw ewyllys.

Pan fydd angen grant cynrychiolaeth

Nid oes angen grant cynrychiolaeth bob amser, er enghraifft, os yw'r person a fu farw:

- wedi gadael llai na chyfanswm o £5000; neu
- yn berchen ar bopeth ar y cyd â rhywun arall.

Fodd bynnag, efallai y bydd rhai sefydliadau ariannol yn gofyn am grant cyn rhoi'r hawl i chi gael hyd yn oed swm bach o arian.

Fel arfer, bydd angen grant cynrychiolaeth os bydd y person a fu farw wedi gadael:

- mwy na £5000;
- stociau a chyfranddaliadau;
- tŷ neu dir; neu
- rhai polisïau yswiriant.

Sut i gael grant

Gallwch ofyn i gyfreithiwr wneud cais am grant cynrychiolaeth ar eich rhan. Er mwyn dod o hyd i gyfreithiwr:

- ewch i **www.lawsociety.org.uk/findasolicitor** Chwiliwch o dan 'Wills and Probate';
- ewch i **www.probatesection.org.uk**; neu
- ffoniwch **020 7320 5650**.

Gallwch hefyd wneud cais am grant yn bersonol:

- yn y Brif Gofrestrfa (Is-adran Deuluol) yng Nghofrestrfa Brofiant Llundain (ffoniwch **0845 302 0900** neu ewch i **www.hmcourts-service.gov.uk**); neu
- mewn cofrestrfa brofiant ddosbarth mewn dinasoedd a llawer o drefi mawr (ffoniwch **0845 302 0900** i ddod o hyd i'ch cofrestrfa brofiant agosaf a chael pecyn gwybodaeth).

Os ydych yn gwneud cais yn bersonol, bydd yn rhaid i chi fynd i gael cyfweliad yn y gofrestrfa a llenwi ffurflen gais a ffurflen dreth. Codir ffi am hyn. Gall staff yn y gofrestrfa eich helpu i lenwi'r ffurflenni.

Cyfrifoldebau cynrychiolwyr personol

Mae cynrychiolwyr personol yn gyfrifol am sicrhau bod yr ystad yn cael ei gweinyddu'n gywir. Os oes ewyllys, mae'n rhaid i'r cynrychiolydd personol sicrhau bod dymuniadau'r person a fu farw, fel y'u nodir yn ei ewyllys, yn cael eu bodloni. Os nad oes unrhyw ewyllys, mae'n rhaid i chi ddilyn y rheolau diffyg ewyllys (a nodir yn Neddf Gweinyddu Ystadau 1925). Dylech ofyn i'ch cyfreithiwr esbonio'r rhain.

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Eich canllaw i

Brofiant

Treth etifeddiant

Mae cynrychiolwyr personol hefyd yn gyfrifol am ganfod a yw treth etifeddiant yn ddyledus o ganlyniad i farwolaeth unigolyn. Os ydyw, mae'n rhaid i'r cynrychiolydd personol sicrhau ei bod yn cael ei thalu.

Gall yr angen i dalu treth etifeddiant ddibynnu ar:

- beth oedd gwerth eiddo a meddiannau'r unigolyn marw pan fu farw;
- gwerth unrhyw anrhegion a roddodd cyn iddo farw, ac i bwy y rhoddodd yr anrhegion hyn;
- gwerth rhai ymddiriedolaethau y cafodd y person marw fudd ohonynt; neu
- pa bobl sy'n cael budd o dan yr ewyllys neu o dan y rheolau diffyg ewyllys (y buddiolwyr).

Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy edrych ar wefan Cyllid a Thollau EM yn **www.hmrc.gov.uk** neu drwy ofyn i gyfreithiwr.

Amserlenni tebygol

Gall gymryd amser hir i ddelio â materion rhywun sydd wedi marw. Nid yw'n anarferol i'r broses hon gymryd hyd at flwyddyn, neu fwy na hynny efallai os ceir anawsterau. Gall llawer o sefydliadau gymryd rhan yn y broses, er enghraifft, banciau, cymdeithasau adeiladu, cwmnïau yswiriant a Chyllid a Thollau EM.

Ni ellir delio â'r ystad hyd nes y bydd pob hawliad iddi wedi dod i law. Mae gan unigolion chwe mis o'r dyddiad y rhoddwyd profiant i hawlio yn erbyn yr ystad.

Mae pethau eraill a all effeithio ar yr amser a gymerir yn cynnwys:

- a oedd materion ariannol yr unigolyn a fu farw mewn trefn;
- yr hyn yr oedd yr unigolyn a fu farw yn berchen arno ac ymhle y mae;
- a oedd gan yr unigolyn a fu farw fuddiant mewn busnes neu fferm;
- yr hyn a ddywed yr ewyllys neu'r rheolau diffyg ewyllys;
- a oes unrhyw anghydfodau cyfreithiol (hawliadau yn erbyn yr ystad neu hawliadau gan yr ystad);
- a oes angen talu unrhyw dreth etifeddiant;
- sicrhau bod holl ffeiliau Cyllid a Thollau EM wedi'u cau a bod materion yn ymwneud â threth incwm, asiantaethau budd-daliadau a phensiynau wedi'u datrys.

Gall dadleuon rhwng aelodau o'r teulu, buddiolwyr neu gynrychiolwyr personol hefyd achosi oedi i'r broses. Mae'n rhaid datrys unrhyw anghytundebau cyn y gellir rhoi trefn ar faterion yr unigolyn a fu farw.

Costau

Gall y taliadau a godir amrywio o gyfreithiwr i gyfreithiwr ac mae'n dibynnu ar y gwaith sydd ynghlwm wrth weinyddu'r ystad. Yn aml nid oes modd gwybod ar unwaith beth fydd hyn yn ei olygu a faint o gyngor a chymorth sydd ei angen.

Dylai eich cyfreithiwr roi syniad o'r costau i chi cyn gwneud unrhyw waith. Gallwch gymharu costau drwy gysylltu â mwy nag un cyfreithiwr. Cofiwch fod y gost o ymdrin â'r ystad fel arfer yn cael ei thalu o'r ystad.

Fodd bynnag, nid y pris yw'r unig ystyriaeth. Mae'r un mor bwysig dod o hyd i gyfreithiwr sympathetig y mae'n hawdd siarad ag ef,

ac un yr ydych yn deall ei gyngor.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni am ddim sy'n ymdrin â'r mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan gyfreithwyr. Rhestrir taflenni eraill yn y gyfres isod.

Maent ar gael oddi wrth eich cyfreithiwr neu o **www.lawsociety.org.uk/commonlegalproblems**

Eich canllaw i ddod o hyd i gymorth cyfreithiol arbenigol
Eich canllaw i brynu cartref
Eich canllaw i wneud ewyllys
Eich canllaw i gael ysgariad
Eich canllaw i broblemau yn y gwaith
Eich canllaw i sefydlu busnes
Eich canllaw i wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol
Eich canllaw i faterion ariannol ar gyfer pobl hŷn
Eich canllaw i roi eich eiddo ar rent
Eich canllaw i rentu cartref
Eich canllaw i ddefnyddio cyfreithiwr
Eich canllaw i hawlio lloches
Eich canllaw i ymgartrefu gyda'ch partner

Gallwn ddarparu'r wybodaeth yn y daflen hon mewn fformatau ac ieithoedd eraill ar gais.

Cysylltwch â ni ar 020 7320 5832 neu e-bostiwch accessibility@lawsociety.org.uk

Lexcel

Chwiliwch am Lexcel – y nod rhagoriaeth ar gyfer cyfreithwyr

The Law Society 113 Chancery Lane London WC2A 1PL **www.lawsociety.org.uk**

Er i ni wneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gywir, mae'r gyfraith yn newid o hyd ac yn effeithio ar bob person yn wahanol. Nid yw'r daflen hon yn disodli cyngor penodol a roddir i chi yn bersonol ac ni fyddwn yn atebol i chi os byddwch yn dibynnu ar y daflen hon.

Dyluniwyd gan dmlmarketing.co.uk Fersiwn 5, 2012 LSwprobate